

## “Oherwydd ei fod yn fyw”

*“Ymhen ychydig amser, ni bydd y byd yn fy ngweld i ddim mwy, ond byddwch chwi’n fy ngweld.” (adn. 19)*

### Beth am ddarlenn Ioan 14:15–31 ac yna myfyrio

Os ydy addewid Iesu ddoe – “fe ddof yn ôl” – yn cyfeirio at ei ailddyfodiad, yna mae addewid heddiw – “fe ddof atoch chwi” – bron yn sicr yn sôn amdano’n dychwelyd at ei ddisgyblion ar ôl ei atgyfodiad. Mae’r cyd-destun yn bendant yn cefnogi hyn. Er bod Iesu ar fin ymadael (drwy farw), bydd y disgyblion yn ei weld unwaith eto (adn. 19). Yn sicr, roedd hon yn addewid drawiadol iddynt, ond mae’n amheus a lwyddon nhw i’w deall yn iawn. Roedden nhw’n sicr yn ei deall ar ôl yr atgyfodiad.

Gallwn ninnau godi’n calonnau yn wyneb yr addewid yma. Roedd y Gwarddwyr yn gwybod y byddai’n mynd trwy farwolaeth ac yn dod allan yn fuddugoliaethus yr ochr arall. Nid rhyw gorff wedi’i adfywio fyddai ganddo chwaith, yn dychwelyd i’w hen ffurf ar fyw. Byddai’n dechrau ar gyfnod newydd o fodolaeth, yn cael ei nodweddu â bywyd atgyfodedig, ac, yn realiti’r bywyd hwnnw o greadigaeth newydd, yn eu cyfarfod eto!

Dydy llawer o bobl, sydd wedi blino ar sinigiaeth ein byd modern, ddim yn gofyn bellach, “Oes na fywyd ar ôl marwolaeth?” ond yn hytrach, “Oes na fywyd cyn marwolaeth?” Mae Iesu’n camu allan o’r ochr arall i farwolaeth i gyfarfod â’r ddau gyflwr. Ef yn unig sy’n gallu rhoi gobaith a sylwedd i’r hyn sydd y tu draw i farwolaeth yn nheyrnas Duw yn y dyfodol. Ac ef yn unig sy’n gallu rhoi llawenydd ac ystyr i’r bywyd sydd i’w fyw cyn marwolaeth, yn nheyrnas bresennol Duw. Pa un ai yn awr neu bryd hynny, yn y presennol cymhleth neu yn y dyfodol ansicr, fydd Iesu ddim yn ein gadael yn amddifad. Bydd yn dod atom ar y naill ochr a’r llall i farwolaeth, ac oherwydd ei fod ef yn fyw, byddwn ninnau’n fyw hefyd.

### Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Job 19:25–27; Salm 139:7–12, 17–18; Marc 9:9–13; Ioan 11:23–27; Heb. 7:15–28

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd y gobaith a fynegodd Job?
2. Pa fath o archoffeiriad sydd gennym yn Iesu?

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, yr Un sydd wedi mynd trwy farwolaeth ac wedi dod allan yr ochr arall wedyn, dw i mor ddiolchgar fy mod i ynot ti. Oherwydd hyn, fydda i byth yn marw. Dw i’n cau fy llygaid ar y ddaear i’w hagor yn y nefoedd. Dyna obaith! Diolch i ti Iesu. Dw i’n eiddo i ti am byth. Amen.